## Cofnodion y cyfarfod diwethaf

**24 Hydref 2017**
**Ystafelloedd Seminar 1 a 2, y Pierhead, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

| YN BRESENNOL: | |
|---|---|
| | |
| **Bethan Jenkins AC (Cadeirydd)** | Gorllewin De Cymru / Plaid Cymru |
| | |
| **Martin Ball** | Gofalwr |
| **Brigid Bowen** | Compassionate Mental Health |
| **Lewis Cole (Ysgrifennydd)** | Gofal |
| **Emma Hagerty** | Anhwylderau Bwyta, CAMHS, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **Ewan Hilton** | Gofal |
| **Gemma Johns** | Prifysgol Abertawe |
| **Menna Jones** | Anhwylderau Bwyta Haen 3, Arweinydd Clinigol y Tîm, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro/Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| **Kerry McLeod** | CAMHS, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **Helen Missen** | Gofalwr |
| **Toby Missen** | Gofalwr |
| **Kim Palmer** | Gwasanaeth Allgymorth Anhwylderau Bwyta Haen Pedwar, CAMHS, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| **Christie Reames** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| **Mark Rivett** | Gwasanaethau Anhwylderau Bwyta, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf |
| **Martin Sutherland** | Gofalwr |
| **Jacinta Tan** | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe / Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg |
| **Manel Tippett** | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru |
| **Jo Whitfield** | Beat |

| CPGED/NAW5/07 - Croeso ac ymddiheuriadau | Camau i'w cymryd |
|---|---|
| Croesawodd Ewan Hilton bawb a ddaeth i gyfarfodydd y Grŵp | |

| | |
|---|---|
| Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta yn ystod tymor y Cynulliad.<br><br>**CAFWYD:** Ymddiheuriadau gan aelodau absennol<br>• Gerrard McCullagh<br>• Simon Thomas AC<br>• Llyr Gruffydd AC<br>• Caroline Winstone<br>• Llinos Kerens | |
| **CPGED/NAW5/08 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf** | **Camau i'w cymryd** |
| **WEDI'U CYMERADWYO**<br>Cofnodion y cyfarfod blaenorol. | **LC** i'w hanfon at y Swyddfa Gyflwyno |
| **CPGED/NAW5/09 - Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol** | **Camau i'w cymryd** |
| **WEDI'U CYMERADWYO**<br>Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol y Grŵp Trawsbleidiol ar Anhwylderau Bwyta. | **LC** i'w hanfon at y Swyddfa Gyflwyno |
| **CPGED/NAW5/10 - Cadarnhawyd cyllid ychwanegol a gafwyd ar gyfer gwasanaethau trosiannol ym maes anhwylderau bwyta** | **Camau i'w cymryd** |
| **Rhoddodd MJ** y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp ynghylch y cynnydd a wnaed o ran y cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y gwasanaethau sy'n pontio CAMHS a gwasanaethau oedolion, sef y cam a gynigiwyd gan y grŵp yn dilyn y cyfarfod diwethaf.<br><br>Mae'r gwasanaeth newydd yn datblygu'n gyflym, gyda phob ardal bwrdd iechyd yn llunio eu cynigion. Bydd y gwasanaeth yn arwain at gael staff newydd a chynyddu nifer y staff. Ar hyn o bryd, mae staff y ddau wasanaeth yn dod i adnabod ei gilydd. Yn o'r eitemau sydd ar yr agenda yn bendant yw sicrhau bod y canlyniadau sy'n cael eu nodi yn canolbwyntio ar ddefnyddiwr y gwasanaeth ac felly yn adlewyrchu a ydynt yn effeithiol. Y bwriad yw cynnal gweithdy fel rhan o'r hyfforddiant.<br><br>Dim ond yn ddiweddar y cadarnhawyd y dyraniad o dan sylw, ond mae'r cyllid ar waith ar ddechrau blwyddyn ariannol 17/18. Felly, bydd | **EH** i ysgrifennu |

| | |
|---|---|
| cyllideb eleni yn cael ei gwario ar gyflogau staff newydd unwaith y byddant yn dechrau eu swyddi, a bydd y gweddill yn cael ei ddefnyddio i gyllido cynllun hyfforddi sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd. Cafodd y cynnig hwn ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Un o'r meysydd sy'n peri pryder ar hyn o bryd yw'r pwysau i wario'r arian erbyn diwedd y flwyddyn, gan nad yw'n bosibl cario cyllid drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Cytunodd EH y dylid caniatáu mwy o amser i'r holl staff gael yr hyfforddiant, ac awgrymodd y dylai ysgrifennu llythyr ar ran y grŵp i sicrhau eglurder ynghylch y mater hwn.<br><br>Trafododd y grŵp y ffaith y byddai'r swm cychwynnol o £1 miliwn a sicrhawyd gan Blaid Cymru yng nghytundeb y gyllideb y llynedd yn cael ei rannu rhwng gwasanaethau anhwylderau bwyta ac astudiaeth yn canolbwyntio ar glinig posibl ar gyfer ailbennu rhywedd. Yn gychwynnol, cafodd yr astudiaeth ar glinig posibl ei hariannu. Fodd bynnag, gofynnwyd a fyddai'r grŵp yn gallu gofyn am eglurhad ynghylch a fyddai clinig newydd yn cael ei ariannu gan ddefnyddio arian o rywle arall, neu a yw'r arian hwn bellach ar gael ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta. Cytunwyd y byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r grŵp ofyn am ddadansoddiad o'r £40 miliwn ychwanegol a sicrhawyd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl, a hynny er mwyn nodi'r swm y bydd gwasanaethau anhwylderau bwyta yn ei gael. | llythyr at Lywodraeth Cymru ar ran y grŵp i ofyn a yw'n bosibl cario'r cyllid o dan sylw drosodd.<br><br>**EH** i ddefnyddio'r llythyr at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurder pellach ynghylch y cyllid sydd ar gael mewn cyllidebau ar gyfer gwasanaethau anhwylderau bwyta. |
| **CPGED/NAW5/11 – Y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil i ofal iechyd sylfaenol ac eilaidd mewn perthynas ag anhwylderau bwyta** | |
| Rhoddodd GJ a JT y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am yr ymchwil y maent yn ei wneud i brofiadau pobl ym maes gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd mewn perthynas ag anhwylderau bwyta. Mae GJ wedi bod yn cynnal adolygiad systematig o ryngwynebau gofal iechyd ar raddfa fyd-eang. Mae'r prif themâu sydd wedi deillio o'r gwaith hwn yn cynnwys pryderon ynghylch:<br>• Y broses gychwynnol o geisio dod o hyd i gymorth<br>• Cyfrifoldeb meddygol<br>• Cydweithio a gwrthwynebu<br>• Y system gefnogaeth gymdeithasol – y driniaeth a gaiff ei dewis<br>• Y broses o ddarparu'r driniaeth | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Rhoddodd JT y wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am ganfyddiadau'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd ar gyfer yr astudiaeth. Un o'r prif nodau oedd canfod a oedd bwlch rhwng gofal iechyd sylfaenol ac eilaidd. Dengys y canfyddiadau fod bylchau ym mhob man, a'r her y mae'r astudiaeth yn ei hwynebu bellach yw'r her o ailfeddwl y meysydd hynny lle ceir bylchau.<br><br>Mae'r niferoedd o dan sylw ymhell tu hwnt i'r fframwaith ar gyfer anhwylderau bwyta ac amcangyfrifon meddygon teulu. O gymharu â'r ffigur o 1%-2% ar gyfer y DU, mae'r ffigur ar gyfer Cymru yn is, sef 0.6%.<br><br>Yn ystod yr haf nesaf, bwriedir cynnal lansiad ar gyfer yr adroddiad, a gaiff ei gefnogi gan y grŵp, pan fydd yr holl ganfyddiadau yn cael eu cyflwyno. | |
| **CPGED/NAW5/12 - Cyflwyniad i brosiectau cyfredol Beat yng Nghymru, a'r prosiectau sydd ar ddod** | |
| Cyflwynodd Jo Whitfield ei hun i'r grŵp fel swyddog cenedlaethol newydd Beat ar gyfer Cymru. Siaradodd am gefnogaeth gyfredol Beat a chefnogaeth newydd y sefydliad ar gyfer pobl ag anhwylderau bwyta yng Nghymru. Mae'r mentrau newydd yn cynnwys:<br>• Hyfforddiant i weithwyr proffesiynol mewn ysgolion - fel y gall staff adnabod yr arwyddion cynnar sydd ynghlwm wrth anhwylder bwyta. Yn dilyn yr hyfforddiant, byddant yn cael cefnogaeth barhaus.<br>• Ehangu rhwydwaith llysgenhadon Beat ledled Cymru, gan gynnwys Llysgenhadon Ifanc (18-25) a Llysgenhadon (25+)<br>• Lansio llinell gymorth a ddarperir drwy'r gyfradd leol - bydd cymorth yn cael ei ddarparu gan gynghorydd hyfforddedig. Bydd bwrdd trafod ar-lein hefyd yn cael ei greu ar gyfer gweithwyr proffesiynol.<br>• Lansio rhaglen hyfforddi gan gyfoedion ar y ffôn - bydd gofalwyr â phrofiad yn gallu cynorthwyo gofalwyr eraill drwy roi cyngor iddynt.<br>• Cyfrif Twitter rhanbarthol ar gyfer Beat yng Nghymru (@BeatED_Wales)<br><br>Mae Beat eisoes yn darparu'r gefnogaeth a ganlyn ar lefel genedlaethol: | |

DRAFT

DRAFT

<table>
<tr>
<td>

- Dwy linell gymorth ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, ynghyd â gwasanaeth newydd negeseua gwib, sydd ar gael 365 diwrnod y flwyddyn rhwng 15:00 a 22:00.
- Grwpiau cymorth ar-lein – sy'n cynnwys gwahanol brofiadau o fywyd a grwpiau sy'n canolbwyntio ar ofalwyr.

**Pwysleisiodd JW** ei bod yn croesawu'r cyfle i gefnogi gwaith y grŵp a gwaith yr aelodau o ran cefnogi pobl. Croesawyd Beat yn ôl i Gymru, a chroesawodd y grŵp yr ymrwymiad sydd ynghlwm wrth ariannu rôl swyddog cenedlaethol parhaol yn hytrach na'r rolau prosiect a gafwyd yn flaenorol.

Mynegodd y grŵp bryder ynghylch y ffaith bod gwaith blaenorol Beat Cymru wedi dod i ben, a'r ffaith y gallai maint y dasg o greu gwasanaethau cymorth newydd arwain at wasanaethau darniog. Fodd bynnag, y bwriad yw y bydd gwaith y Llysgenhadon a'r gefnogaeth genedlaethol a ddarperir yn goresgyn yr heriau hyn y tro hwn. Awgrymwyd y gallai'r cam o wahodd Prif Weithredwr Beat i Gymru ar gyfer lansio'r ymchwil yn ystod yr haf fod yn gyfle da i'r grŵp drafod y posibilrwydd o gael rhagor o gefnogaeth i Gymru, yn ogystal â thrafod cyfraniad Beat.

---

O ran y gefnogaeth a ddarperir i bobl mewn ysgolion, mynegwyd pryderon y gallai'r cam o greu 'arbenigwyr' ymhlith y staff fod yn niweidiol i'r disgyblion pe bai tybiaethau anghywir yn cael eu gwneud, a hynny heb gymorth allanol parhaus. Arweiniodd y mater hwn at drafodaeth am y materion ehangach sy'n ymwneud ag addysg ar ddeiet a bwyta'n iach yng Nghymru, sy'n aml yn gallu arwain at ansicrwydd ymhlith plant mewn perthynas â rhai bwydydd y gellir eu hystyried yn 'afiach', ond sydd, mewn gwirionedd, yn elfennau pwysig o ddeiet cytbwys.

**Soniodd MT** fod Obesity Alliance Cymru yn llunio canllawiau ar hyn o bryd ar gyfer rhoi adborth i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r Strategaeth Gordewdra. Gallai'r grŵp fwydo i mewn i'r strategaeth honno ac awgrymu newidiadau sy'n adlewyrchu pa mor agored i niwed ydyw pobl ifanc ag anhwylderau bwyta. Cytunwyd y byddai'r grŵp yn cyfrannu drwy anfon llythyr a fyddai'n codi pryderon ynghylch addysg bwyta'n iach mewn ysgolion.

</td>
<td>

**MT** i ysgrifennu llythyr/cysylltu ag OAC ynglŷn â'r strategaeth gordewdra

</td>
</tr>
</table>

| CPGED/NAW5/13 - Unrhyw fater arall | |
|---|---|
| Yn sgil yr amser sydd wedi mynd heibio ers y cyfarfod diwethaf, awgrymodd **EH** fod y grŵp yn cylchredeg ac yn adolygu'r prif faterion a'r blaenoriaethau a gytunwyd eisoes er mwyn inni allu canolbwyntio'n fwy ar yr hyn yr ydym am i'r grŵp ei gyflawni.<br><br>**Gofynnodd BJ** i'r grŵp am awgrymiadau ynghylch darpar siaradwyr a gwesteion a fyddai'n gallu siarad a chyfrannu mewn modd defnyddiol mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. **Gofynnodd BJ** hefyd am ffyrdd o annog Aelodau Cynulliad sy'n aelodau newydd o'r grŵp. Awgrymodd y byddai cael amcanion newydd, wedi'u haddasu, yn helpu i gyflawni hyn, ynghyd â chynnal arolwg barn gyhoeddus ynghylch blaenoriaethau'r grŵp.<br><br>Cyflwynodd Brigid Bowen ei hun fel sylfaenydd Compassionate Mental Health, sef y teitl a roddir i fudiad a chyfres o gyfarfodydd sydd â'r nod o ysbrydoli a grymuso pobl sy'n byw ac yn gweithio gydag iechyd meddwl gwael, a newid sut yr ydym yn meddwl am lesiant meddyliol. Bydd anhwylderau bwyta ar yr agenda yn y cyfarfod nesaf, a gynhelir ym mis Mawrth/Ebrill 2018, pan fydd arbenigwyr o ran eu profiadau, gweithwyr proffesiynol yn y maes a gwneuthurwyr polisi yn bresennol. **Diolchodd BB** i'r grŵp am y cyfle i fod yn bresennol yn y cyfarfod heddiw. | **LC** i ddosbarthu crynodeb o'r prif faterion a'r blaenoriaethau a ddeilliodd o'r cyfarfod a gofyn am newidiadau posibl. |
| Diolchodd Bethan Jenkins i bawb am eu presenoldeb. | |

DRAFT